



**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

**OFFERYNNAU STATUDOL**

**STATUTORY INSTRUMENTS**

**2001 Rhif 2914 (Cy. 244)**

**2001 No.2914 (W.244)**

**Y GYFRAITH  
GYFANSODDIADOL  
DATGANOLI, CYMRU**

**CONSTITUTIONAL LAW  
DEVOLUTION, WALES**

**CYNRYCHIOLAETH Y BOBL**

**REPRESENTATION OF THE  
PEOPLE**

Gorchymyn Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Etholiadau:  
Papurau Enwebu) (Ffurflen  
Gymraeg) 2001

The National Assembly for Wales  
(Elections: Nomination Papers)  
(Welsh Form) Order 2001

**NODYN ESBONIADOL**

**EXPLANATORY NOTE**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

*(This note is not part of the Order)*

Mae'r Gorchymyn hwn, sy'n dod i rym ar 16 Awst 2001, yn gymwys i etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

The Order, which comes into force on 16th August 2001, applies to elections to the National Assembly for Wales.

Mae adran 22 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (p.41) yn gwneud darpariaeth ar gyfer cofrestru pleidiau er mwyn iddynt gynnig ymgeiswyr mewn etholiadau perthnasol ("*relevant elections*") (sydd yn rhinwedd adran 22(5)(d) yn cynnwys etholiadau i'r Cynulliad Cenedlaethol). Gwneir hynny drwy ddarparu na chaiff person sefyll yn ymgeisydd mewn etholiad o'r fath oni bai bod yna dystysgrif, i'w awdurdodi fel ymgeisydd, ac wedi'i rhoi gan neu ar ran swyddog enwebu plaid gofrestredig gymwys yn cyd-fynd â'i bapur enwebu, neu os yw ei bapur enwebu naill ai'n rhoi'r disgrifiad "Independent" neu os nad yw'n rhoi dim disgrifiad o gwbl.

Section 22 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000 (c.41) makes provision for parties to be registered in order to field candidates at "relevant elections" (which by virtue of section 22(5)(d) includes elections to the National Assembly). It does so by providing that a person may only stand as a candidate at such an election if that candidate's nomination paper is accompanied by a certificate authorising his candidature issued by, or on behalf of, the nominating officer of a qualifying registered party or if his nomination paper either gives the description "Independent" or gives no description whatsoever.

Mae'r Gorchymyn hwn yn rhagnodi mai "Annibynnol" yw'r ffurfeiriad Cymraeg ar gyfer y gair "Independent" sydd i'w ddefnyddio i ddisgrifio'r ymgeisydd yn y papur enwebu mewn perthynas ag etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

This Order provides that, in relation to an election to the National Assembly for Wales, "Annibynnol" is prescribed as the form of words in Welsh for the word "Independent" for use as the description of the candidate in the nomination paper.

**2001 Rhif 2914 (Cy. 244)****2001 No. 2914 (W.244)****Y GYFRAITH  
GYFANSODDIADOL  
DATGANOLI, CYMRU****CONSTITUTIONAL LAW  
DEVOLUTION, WALES****CYNRYCHOLAETH Y BOBL****REPRESENTATION OF THE  
PEOPLE**

Gorchymyn Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Etholiadau:  
Papurau Enwebu) (Ffurflen  
Gymraeg) 2001

The National Assembly for Wales  
(Elections: Nomination Papers)  
(Welsh Form) Order 2001

*Wedi'i wneud**15 Awst 2001**Made**15th August 2001**Yn dod i rym**16 Awst 2001**Coming into force**16th August 2001*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Gorchymyn canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Gweinidog priodol gan adran 26(2) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993(a) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru:

The National Assembly for Wales makes the following Order in exercise of the powers conferred on the appropriate Minister by section 26(2) of the Welsh Language Act 1993(a) and now vested in the National Assembly for Wales:

**Enwi a chychwyn**

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Etholiadau: Papurau Enwebu) (Ffurflen Gymraeg) 2001 a daw i rym ar 16 Awst 2001.

**Citation and Commencement**

1. This Order may be cited as the National Assembly for Wales (Elections : Nomination Papers) (Welsh Form) Order 2001 and shall come into force on 16th August 2001.

**Ffurflen Gymraeg**

2. -(1) Rhagnodir drwy hyn mai "Annibynnol" yw'r ffurfeiriad Gymraeg ar gyfer y gair "Independent" a bennir yn adran 22(3)(a)(i) o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(b).

**Welsh Form**

2.-(1) "Annibynnol" is hereby prescribed as the form of words in Welsh for the word "Independent" which is specified by section 22(3)(a)(i) of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(b).

(2) Gall y ffurfeiriad Gymraeg a ragnodir gan baragraff (1) gael ei ddefnyddio yn ychwanegol at y gair Saesneg cyfatebol neu yn ei le mewn etholiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(2) The form of words in Welsh which is prescribed by paragraph (1) may be used as well as or in place of the equivalent word in English at an election to the National Assembly for Wales.

(a) 1993 p.38. I gael ystyr "the appropriate Minister" gweler adran 27(4) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. O dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) (y ceir diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Gorchymyn), i'r graddau yr oedd y swyddogaeth a enwyd i "the appropriate Minister" yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, fe'i gwnaed yn arferadwy gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu gan unrhyw un o Weinidogion y Goron yr oedd y pŵer hwnnw yn arferadwy ganddo.

(a) 1993 c.38. For the meaning of "the appropriate Minister" see section 27(4) of the Welsh Language Act 1993. By the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672) (to which there are amendments not relevant to the Order) the cited function of "the appropriate Minister" was, so far as exercisable in relation to Wales, made exercisable by the National Assembly for Wales concurrently with any Minister of the Crown by whom that power was exercisable.

(b) 2000 p.41.

(b) 2000 c.41.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(a)

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(a)

15 Awst 2001

15th August 2001

*Jenny Randerson*

Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg

Assembly Secretary for Culture, Sport and the Welsh Language

---

(a) 1998 p.38.

---

(a) 1998 c.38.

**2001 Rhif 2914 (Cy. 244)**

**Y GYFRAITH  
GYFANSODDIADOL  
DATGANOLI, CYMRU**

**CYNRYCHOLAETH Y BOBL**

Gorchymyn Cynulliad  
Cenedlaethol Cymru (Etholiadau:  
Papurau Enwebu) (Ffurflen  
Gymraeg) 2001

**2001 No.2914 (W.244)**

**CONSTITUTIONAL LAW  
DEVOLUTION, WALES**

**REPRESENTATION OF THE  
PEOPLE**

The National Assembly for Wales  
(Elections: Nomination Papers)  
(Welsh Form) Order 2001

© Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.


**£1.75**

W375 8/01

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090328-5



9 780110 903286